# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher : Mrs H Davies**

## Diweddariad Recriwtio Pennaeth – 03/10/2022

Ar ran y Llywodraethwyr, panel penodi a phawb a oedd yn rhan o'r broses recriwtio pennaeth, hoffwn eich hysbysu ein bod wedi bod yn llwyddiannus wrth apwyntio pennaeth newydd i Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn. Yr ymgeisydd llwyddiannus yw Mrs Angharad Williams sydd ar hyn o bryd yn ddirprwy-bennaeth yn Ysgol Gymraeg Tirdeunaw yn Abertawe. Bydd Mrs Williams yn ymuno a ni yn Ionawr 2023.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth dangos diddordeb yn y rôl am eu hamser ac ymdrechion. Roedd yn bleser i glywed wrth a chwrdd a nifer o arweinwyr ysbrydoledig yn ystod y broses. Yn ail, hoffwn ddiolch i'r disgyblion, staff a holl rhanddeiliaid yr ysgol am eu mewnbwn ac amynedd. Yn enwedig disgyblion y cynghorau ysgol a wnaeth ofyn cwestiynau diddorol i'r ymgeiswyr. Yn olaf, hoffwn ddiolch i fy nghyd-lywodraethwyr ar panel penodi am eu hymroddiad, amser ac egni er mwyn sicrhau bod yr ymgeisydd mwyaf llwyddiannus yn cael recriwtio i'r ysgol, staff, disgyblion ar gymuned ehangach.

Bydd Mrs Williams yn cyflwyno ei hun i'r ysgol yn ystod y tymor ynghyd a gweithio yn agos gyda Mrs Davies ar tîm arwain er mwyn sicrhau cyfnod o bontio llwyddiannus. Bydd Mrs Davies yn parhau fel pennaeth dros dro a Mrs Zych fel dirprwy dros dro am weddill y tymor. Rydym yn diolch iddynt am eu arweinyddiaeth barhaus.

Pob hwyl,

Mathew Davies (Cadeirydd Bwrdd Llywodraethol)

*Neges wrth Mrs Williams:*

*Rwyf yn falch iawn i allu ysgrifennu atoch yn cyflwyno fy hun fel Pennaeth newydd Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn. Braint yw cael fy mhenodi i ddatblygu ar y llwyddiant arbennig mae'r ysgol wedi cyflawni dan arweiniad gwych Mr Davies.*

*Yn 2018 cefais fy apwyntio yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw ac yr wyf wedi bod yn rhan o'r uwch dîm rheoli yn yr ysgol ers deng mlynedd. Cychwynnais fy ngyrfa yma yn Ysgol Parc y Tywyn fel athrawes a threuliais chwe blynedd hapus iawn yma, cyn derbyn dyrchafiad. Rwyf yn fam i ddau fab, ac felly yn ymwybodol iawn o'r cyfrifoldeb sydd gan y staff i sicrhau bod y disgyblion yn derbyn addysg o'r safon uchaf.*

*Fy ngweledigaeth i'r ysgol hon yw bachu brwdfrydedd ein dysgwyr drwy ddarparu gweithgareddau pwrpasol, diddorol, cyffrous sy'n dal eu dychymyg ac yn annog annibyniaeth, gan gynnig cyfleoedd iddynt er mwyn eu paratoi i fod yn unigolion hyderus, uchelgeisiol mewn byd technolegol a datblygiadol.*

*Credaf ei fod yn angenrheidiol i gynnwys y dysgwyr a'u teuluoedd fel partneriaid yn eu addysg. Trwy wrando ar lais y dysgwr a chydweithio'n agos gyda rhieni, staff a llywodraethwyr a'r gymuned rhoddwn wreiddiau cadarn i'n dysgwyr fel eu bod yn aeddfedu i fod yn unigolion egwyddorol a iach, sy'n ymfalchïo yn eu hiaith a'u diwylliant Cymreig.*

*Gallwch fod yn hyderus, o dan fy arweiniad i, yr wyf yn mynd i ymdrechu i gael yr addysg orau i'ch plentyn/plant tra eu bod yn rhan o deulu Parc y Tywyn. Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi ym mis Ionawr ac i gychwyn fel Pennaeth yn yr ysgol lwyddiannus hon.*

*Mrs A Williams*